O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 2168 (Cy. 235)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffordd yr M4 (Pont Afon Ebwy, Cyffordd 27, High Cross i Gyffordd 28, Parc Tredegar, Casnewydd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *1 Medi 2011* |
| *Yn dod i rym* | *12 Medi 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi'u bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984 a phob pŵer galluogi arall, yn gwneud y Gorchymyn hwn(1).

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Medi 2011 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Pont Afon Ebwy, Cyffordd 27, High Cross i Gyffordd 28, Parc Tredegar, Casnewydd) Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

**2.** —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "y darnau o'r draffordd" *("the lengths of the motorway")* yw'r darnau hynny o Draffordd yr M4 Cyffordd 27 High Cross i Gyffordd 28, Parc Tredegar, Casnewydd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 12 Medi 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, heblaw cerbyd esempt, fynd ar hyd un neu fwy o lonydd y gerbytffordd tua'r gorllewin ar y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2.

**4.** Tra bydd symudiad traffig wedi ei wahardd gan erthygl 3 ar un neu fwy o lonydd y gerbytffordd tua'r gorllewin ond, yn unol ag erthygl 11, heb ei wahardd ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar lôn 3 ar gerbytffordd y draffordd tua'r dwyrain i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, heblaw cerbyd esempt, deithio ar hyd y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 1.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 1, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd y ame ei ledyn 1.98 metr neu fwy fynd ar hyd y darn o’r draffordd a bennir yn Atodlen 2 pan fo gwrthlif ar waith.

**7.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10 ac 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 3.

**8.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10 ac 11, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 4.

**9.** Mae Rheoliad 6(3) o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Cymru a Lloegr) 1982**(3)** wedi ei atal dros dro i'r graddau y mae'n ymwneud â lôn allanol cerbytffordd tua'r gorllewin y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 ar yr adegau hynny pan fydd y gwaharddiad a bennir yn erthygl 4 mewn grym.

**10.** Mae darpariaethau rheoliad 3 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Terfyn Cyflymder) 1974**(4)**, i’r graddau y maent yn gymwys i’r darnau o draffordd a bennir yn Atodlenni 3 a 4, drwy hyn yn cael eu hatal dros dro yn ystod yr adegau hynny y bydd y cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 7 ac 8 yn weithredol.

**11.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 a 10 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r

graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**12.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 1 Medi 2011

*G. MORGAN*
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 1982/1163
**(4)** O.S. 1974/502

## YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

**HYD A LLED Y GWAHARDDIAD AR BOB CERBYD**

Hyd cyfan y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 28, Parc Tredegar.

Hyd cyfan y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 27, High Cross.

## ATODLEN 2

**HYD A LLED Y GWRTHLIF A GWAHARDD CERBYDAU MAE EU LLED YN 1.98 METR NEU FWY**

Y darn hwnnw o lôn 3 o gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o'r man croesi gorllewinol sy'n 63 o fetrau i'r dwyrain o Danffordd Traffordd Dyffryn i'r man croesi dwyreiniol sy'n 225 o fetrau i'r gorllewin o ganol Isbont Coed Pen-sarn.

## ATODLEN 3

## HYD A LLED Y TERFYN CYFLYMDER 30 MYA

Y darnau o’r draffordd sy'n rhychwantu :-

i) Man croesi gorllewinol – o bwynt 150 o fetrau i'r gorllewin i bwynt 150 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y man croesi sy'n 63 o fetrau i'r dwyrain o Danffordd Traffordd Dyffryn.

ii) Man croesi dwyreiniol – o bwynt 150 o fetrau i'r gorllewin i bwynt 150 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y man croesi sy'n 225 o fetrau i'r gorllewin o linell ganol Isbont Coed Pen-sarn.

## ATODLEN 4

## HYD A LLED Y TERFYN CYFLYMDER 50 MYA

Y darn hwnnw o'r draffordd sy'n ymestyn o bwynt 257 o fetrau i'r dwyrain o Isbont Coed Pen-sarn i bwynt wrth drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 28, Parc Tredegar.